# Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

# Tachwedd 2021

# Nodyn Briffio

## Cefndir

Sefydlwyd Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 i ddarparu dadansoddiad o dystiolaeth wyddonol hanfodol i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau iechyd a gofal cymdeithasol newydd a grëwyd gan y pandemig.

Nod WCEC, sy'n rhan o Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yw darparu tua 30-40 adolygiad y flwyddyn gan ateb rhai o'r cwestiynau blaenoriaeth ar gyfer polisi ac ymarfer yng Nghymru. Mae'n gweithio trwy adolygu'n gyflym y dystiolaeth orau sydd ar gael ar bwnc penodol. Gydag ymchwil yn parhau a data newydd yn dod i'r amlwg trwy'r amser, mae'n bwysig nodi y gallai goblygiadau a adroddwyd gan WCEC newid wrth i fwy o ymchwil ddod ar gael.

Mae'r dull yn galluogi mynediad cyflym at ganfyddiadau ymchwil rhyngwladol allweddol ac astudiaethau ymchwil cyflym â ffocws ar lefel Cymru i lywio'r broses o wneud penderfyniadau gan weinidogion, yn ogystal ag arweinwyr yn y GIG a gofal cymdeithasol.

Mae gan WCEC **15 o adolygiadau wedi'u cwblhau a 9 yn parhau** yn y meysydd eang canlynol: mynd i'r afael â'r ôl-groniad gofal; gwyliadwriaeth, rheolaeth a thriniaeth heintiau; plant, pobl ifanc ac addysg; goblygiadau iechyd meddwl; lleihau anghydraddoldebau; gofal cymdeithasol; covid hir; ystyriaethau derbyn brechlyn ac ymddygiad.

**Gellir gweld y rhaglen waith lawn gan gynnwys adolygiadau cyhoeddedig hyd yma ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.**

Arweinir WCEC gan y meddyg teulu ac academydd Prifysgol Caerdydd, yr Athro Adrian Edwards, y mae ei dîm craidd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid cydweithredol fel Technoleg Iechyd Cymru, Canolfan Gofal Seiliedig ar Dystiolaeth Cymru, Canolfan Arbenigedd ar gyfer Adolygu Tystiolaeth, Cronfa Ddata SAIL, Sefydliad Bangor ar gyfer Iechyd ac Ymchwil Feddygol /Economeg Iechyd a Gofal Cymru, ac Arsyllfa Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r gyfres o sesiynau briffio mewnol bob pythefnos gan WCEC yn parhau ac mae'r symposiwm allanol chwarterol cyntaf, sy'n canolbwyntio ar addysg, plant a phobl ifanc, yn cael ei gynnal ar 7fed Rhagfyr 2021.

## Tystiolaeth ac effaith ar wneud penderfyniadau

Mae'r pum adolygiad cyhoeddedig a amlinellir isod yn dangos sut mae'r broses o wneud penderfyniadau wedi cael ei llywio gan adolygiad tystiolaeth amserol o ansawdd uchel, gyda'r nod yn y pen draw o wella bywydau pobl yng Nghymru. Mae WCEC yn parhau i ymateb yn gyflym i geisiadau brys ac ar hyn o bryd mae'n coladu blaenoriaethau ymchwil ychwanegol a dderbynnir gan randdeiliaid.

### 1. Gorchuddion wyneb

- Defnyddiwyd adolygiad cyflym Canolfan Dystiolaeth Covid-19 Cymru ar effeithiolrwydd gorchuddion wyneb ym mis Gorffennaf 2021 i lywio **symudiad Cymru i Lefel Rhybudd 0** a sut mae gorchuddion wyneb, ynghyd â hylendid dwylo, pellter cymdeithasol ac awyru yn parhau i fod yn elfennau allweddol o'r strategaeth i reoli effaith COVID-19.
- Arweiniodd y gwaith hwn at gydweithrediad parhaus, gyda chydweithwyr UKHSA hefyd yn cynnal gwaith adolygu cyflym.

### 2. Iechyd meddwl mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol

- Mae tystiolaeth yn awgrymu y cafwyd effaith andwyol sylweddol ar iechyd meddwl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae anaf moesol yn risg ychwanegol.
- Efallai y bydd angen y gefnogaeth fwyaf ar staff benywaidd, pobl ag anhwylder iechyd meddwl presennol neu flaenorol ac sydd â phryderon am drosglwyddiad/PPE COVID-19.
- Mae'r effaith andwyol ar iechyd meddwl yn debygol o fod yn ddigon sylweddol i warantu bod cefnogaeth i staff yn flaenoriaeth.

### 3. Mesurau rheoli haint mewn ysgolion

- Dangosodd y dystiolaeth fod y risg o drosglwyddo mewn ysgolion cynradd a gofal dydd yn isel, pan lynir wrth fesurau rheoli ac atal heintiau.
- Roedd y dystiolaeth ar gyfer risg trosglwyddo mewn ysgolion uwchradd yn fwy amrywiol. Dylid ystyried strategaethau rheoli heintiau sy'n ymgorffori dull aml-gydran ac yn unol â'r cyd-destun pandemig lleol.
- Cynhaliwyd yr adolygiad hwn mewn ffrâm amser fer i lywio 'Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau COVID-19 lleol' Llywodraeth Cymru.

### 4. Dulliau diheintio (gan gynnwys peiriannau osôn) mewn ysgolion

- Nid oedd tystiolaeth uniongyrchol o effeithiolrwydd a diogelwch defnyddio peiriannau osôn i ddadactifadu SARS-CoV-2 mewn lleoliadau addysgol yn y byd go iawn. Cafwyd tystiolaeth o'r risg o niwed naill ai gan osôn neu lygryddion eilaidd
- Mae mesurau eraill, fel gwelliannau i awyru, yn fwy effeithiol.

- Cynhaliwyd yr adolygiad hwn mewn ffrâm amser fer, ac fe lywiodd y penderfyniad i beidio â defnyddio peiriannau osôn.

## 5. Haint Covid-19 a brechu menywod beichiog

- Mae pryder yng Nghymru bod y nifer sy'n derbyn brechlyn COVID-19 mewn menywod beichiog yn isel, gan gyfrannu at fwy o dderbyniadau i'r ysbyty yn y grŵp poblogaeth hwn.
- Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gynghori menywod beichiog i gael y brechlyn, yn enwedig os ydyn nhw'n rhan o grŵp sydd mewn perygl.
- Cynhyrchwyd adolygiad cyflym o'r canllawiau gyda ffeithlun cysylltiedig i grynhoi tystiolaeth i lywio negeseuon wedi'u hanelu at fenywod beichiog a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n cynnal WCEC yn gangen gyflenwi a brand allanol Is-adran Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r GIG, prifysgolion, llywodraeth leol, cyllidwyr ymchwil eraill, cleifion a'r cyhoedd i ariannu, cefnogi a chynyddu ymchwil a all drawsnewid bywydau, hyrwyddo twf economaidd a hyrwyddo gwyddoniaeth. Mae Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru yn rhan o raglen ehangach o waith dan arweiniad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gyda phartneriaid yng nghenhedloedd eraill y DU, i ddefnyddio ymchwil i fynd i'r afael â'r pandemig.

**Am fwy o wybodaeth ewch i:**
**Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru.**